**Ysbrydolrwydd Undod**

# Gair Bywyd

**Letizia Magri**

Hydref 2018

*Nid ffrwyth ein llafur ein hunain yn unig yw byw mewn cariad. Mae'r Ysbryd sydd wedi'i roi i ni yn rhoi cryfder i ni dyfu'n rhydd o gaethwasiaeth hunanoldeb a byw mewn cariad. A gallwn ofyn yn barhaus am yr Ysbryd Glân.*

***Ond os ydy'r Ysbryd yn eich arwain chi, dych chi ddim yn gaeth i'r Gyfraith* (Gal 5: 18).**
Roedd Paul yn ysgrifennu at Gristnogion Galatia, rhanbarth sydd bellach yng nghanolbarth Twrci. Roedd ef ei hun wedi bod yn efengylu yn yr ardal hon, ac roedd yn hoff iawn o'r bobl.

Roedd rhai pobl yn y gymuned honno'n meddwl y dylai Cristnogion ddilyn holl argymhellion Cyfraith Moses er mwyn cael eu derbyn gan Dduw a'u hachub.

Ar y llaw arall, cadarnhaodd Paul nad ydym bellach 'dan y Gyfraith' oherwydd daeth Iesu ei hun, sy'n Fab i Dduw ac yn Waredwr y ddynoliaeth, i gynrychioli'r Ffordd i'r holl bobl at y Tad, drwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Mae ffydd yn Iesu yn agor ein calonnau i waith Ysbryd Duw ei hun, sy'n ein harwain ac sy'n gwmni i ni ar hyd llwybrau bywyd.

Felly, yn ôl Paul, yn hytrach na bod yn fater o 'beidio â bod yn gaeth i'r Gyfraith', mae'n gwestiwn o fynd at wraidd dyfnaf y Gyfraith a dod i ddeall popeth mae'n ei orchymyn, gan adael i'r Ysbryd ein harwain.

Yn wir, ychydig linellau'n gynharach, dywedodd Paul: 'Mae yna un gorchymyn sy'n crynhoi'r cwbl mae'r Gyfraith Iddewig yn ei ddweud: "Rwyt i garu dy gymydog fel rwyt ti'n dy garu dy hun."' (Gal 5: 14).

O fewn cariad Cristnogol at Dduw a chymydog mae rhyddid a chyfrifoldeb ynghlwm â bod yn blant i Dduw. Drwy ddilyn esiampl Iesu, mae gofyn i ni garu pawb, mynd ati i garu pobl eraill a'u caru fel rydyn ni'n ein caru ein hunain – hyd yn oed pobl rydyn ni'n eu hystyried yn elynion.

**Ond os ydy'r Ysbryd yn eich arwain chi, dych chi ddim yn gaeth i'r Gyfraith**
Mae'r cariad a ddaw gan Dduw yn ein hannog i weithredu'n gyfrifol bob amser - gyda'n teulu, yn y gwaith a gyda phwy bynnag rydyn ni'n cwrdd â nhw. Cawn ein galw i feithrin pob perthynas yn heddychlon, yn gyfiawn a chyfreithlon.

Mae cyfraith cariad yn gosod sylfaeni cadarn i'n bywyd yn y gymdeithas, fel yr eglurodd Maria o Baris: 'Rwy'n dysgu mewn ysgol ar gyrion Paris. Mae mewn ardal amlddiwylliannol ac mae llawer o'r myfyrwyr yn dod o deuluoedd difreintiedig. Rwy'n trefnu prosiectau trawsgwricwlaidd sy'n galluogi gwaith tîm ac yn meithrin ymdeimlad o deulu ymhlith fy nghydweithwyr. Mae hyn yn cryfhau ein hygrededd wrth wahodd y myfyrwyr i

wneud yr un peth. Rwyf i wedi dysgu i beidio â disgwyl canlyniadau ar unwaith ac wedi gweld nad yw myfyrwyr bob amser yn newid. Y peth pwysig yw parhau i gredu ynddyn nhw, gan gyd-deithio gyda nhw, eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo. Ambell waith rwy'n teimlo nad wyf i'n cael unrhyw effaith ond ar adegau eraill rwy'n gweld prawf pendant bod y berthynas rydyn ni wedi'i chreu yn dwyn ffrwyth. Digwyddodd hyn gyda merch oedd yn aflonyddu'r dosbarth. Esboniais iddi'n dawel ac yn gadarn bod angen i bawb wneud ei ran er mwyn i ni allu cyd-fyw â'n gilydd. Yn ddiweddarach ysgrifennodd ataf i: *"Mae'n ddrwg gen i am fy ymddygiad; fydd hyn ddim yn digwydd eto. Rwy'n gwybod eich bod yn disgwyl gweithredu go iawn gennym ni, nid dim ond geiriau, ac rwyf i am ymrwymo fy hun i hyn. Rydych chi'n rhywun sy'n rhoi'r gwerthoedd iawn i ni fyfyrwyr ynghyd â'r awydd i lwyddo."*

**Ond os ydy'r Ysbryd yn eich arwain chi, dych chi ddim yn gaeth i'r Gyfraith**
Nid ffrwyth ein llafur ein hunain yn unig yw byw mewn cariad. Mae'r Ysbryd sydd wedi'i roi i ni yn rhoi cryfder i ni dyfu'n rhydd o gaethwasiaeth hunanoldeb a byw mewn cariad. A gallwn ofyn yn barhaus am yr Ysbryd Glân.

Ysgrifennodd Chiara Lubich: *'Cariad sy'n ein symud, mae'n awgrymu sut i ymateb i sefyllfaoedd a'r dewisiadau rydyn yn cael ein galw i'w gwneud. Mae cariad yn ein dysgu sut i wahaniaethu: mae hyn yn dda ac rwyf i am ei wneud; mae hyn yn ddrwg a dwyf i ddim am ei wneud. Cariad sy'n ein hannog ni i weithredu mewn ffordd sydd orau i bobl eraill. Nid grym allanol sy'n ein harwain ond egwyddor y bywyd newydd mae'r Ysbryd wedi'i osod ynom ni. Gall ein calon, ein meddwl a'n cryfder, a'n holl alluoedd, gerdded yn unol â'r Ysbryd oherwydd bod cariad yn eu huno a'u bod yn gwbl agored i gynllun Duw ar ein cyfer ni a chymdeithas. Rydyn ni'n rhydd i garu.'*